OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2018 (Cy.139)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU CADWRAETH PYSGOD MÔR

## Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) (Diddymu) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *17 Mai 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Mehefin 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 6(1) ac 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), a phob per arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) (Diddymu) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 1 Mehefin 2001.

### Diddymu

**2.** Mae Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) 1986(**2**) drwy hyn wedi'i ddiddymu mewn perthynas â Chymru.

(**1**) 1967 p.84. Amnewidiwyd adran 1 gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29) adran 19(1), a'i diwygio gan baragraff 38(a) o Atodlen 13 i Ddeddf Llongau Masnachol 1995 (p.21) a pharagraff 43(2) a (3) o Atodlen 2 i Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820).
Diwygiwyd adran 6, o ran ei heffaith, gan adran 33(1) o Ddeddf 1981 a'i diwygio gan O.S. 1999/1820, Atodlen 2, paragraff 43(6).
Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) cafodd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 6(1) o Ddeddf 1967 eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru (a ddiffinnir yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) fel ei bod yn cynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea"); mewn perthynas â dyfroedd y tu hwnt i Gymru mae'r swyddogaethau hyn yn dal yn arferadwy gan y Gweinidogion.
Gweler adran 22(2) o Ddeddf 1967 i gael diffiniadau o "the Ministers" at ddibenion adrannau 1 a 15(3). Diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19(2)(d) a 45(b) ac (c) a chan O.S. 1999/1820, paragraff 43(12) o Atodlen 2.

(**2**) O.S. 1986/496. Cafodd y Gorchymyn ei ddiddymu gan O.S. 2000/1235 ac eithrio i'r graddau yr oedd yn rhan o Gyfraith yr Alban neu yn effeithiol mewn perthynas â Chymru. Cafodd ei ddiddymu mewn perthynas â'r Alban gan O.S.A. 2000/81.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*John Marek*

17 Mai 2001

Dirpwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) 1986 ("Gorchymyn 1986"), sydd eisoes wedi'i ddiddymu mewn perthynas â'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon (erthygl 2).

Gwaharddodd Gorchymyn 1986 lanio crafangau crancod yn y Deyrnas Unedig os ydynt wedi'u datod oddi ar grancod bwytadwy (*Cancer pagurus*) sydd wedi'u dal o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain. Gwnaed darpariaeth gysylltiedig ynddo hefyd ar gyfer gorfodi.

Erbyn hyn, gellir dod o hyd i ddarpariaethau ynghylch cadw crancod bwytadwy a chrafangau sydd wedi'u datod ar fwrdd llongau a'u glanio yn Erthygl 18.4 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 (OJ Rhif L125, 27.04.98, t.1) ynghylch cadwraeth adnoddau pysgodfeydd drwy gyfrwng mesurau technegol ar gyfer diogelu organeddau morol ifanc.

Mae darpariaethau ar gyfer gorfodi'r cyfyngiadau a'r rhwymedigaethau a geir yn y Rheoliad hwnnw wedi'u gwneud yng Ngorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) (Cymru) 2000 (2000 Rhif 2230 (Cy. 148)) a ddaeth i rym ar 11 Medi 2000.